



Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru Pecyn Cymorth Gweithredu

Beth yw'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynus Iechyd?

Mae'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynus Iechyd (IHCC) yn rhaglen waith GIG Cymru gyfan, a sefydlwyd yn 2013 yn dilyn argymhellion a nodwyd gan ddogfen bolisi Llywodraeth Cymru 'Iechyd yng Nghymru a Thu Hwnt i'w Ffiniau: Fframwaith ar gyfer Cysylltu'n Rhyngwladol ym Maes Iechyd' (Llywodraeth Cymru, 2012).

Mae'n gwasanaethu fel canolbwynt ar gyfer rhannu gwybodaeth, cyfnewid gwybodaeth, cydweithredu a rhwydweithio ar gyfer GIG Cymru ar draws y DU, Ewrop a'r byd. Mae'n hybu, hwyluso a galluogi partneriaethau rhyngwladol, meithrin gallu a galluogrwydd, a llywodraethu da. Trwy'r gweithrediadau hyn, nod yr IHCC yw cynyddu enillion posibl i Gymru, lleihau dyblygu ymdrechion ac adnoddau, a chefnogi system iechyd sydd yn gyfrifol yn fyd-eang, yn ogystal â bod yn fwy cyfartal, cydnerth a ffyniannus.

Mae gan yr IHCC safle penodol, rhwng y llywodraeth, y system iechyd a sectorau perthnasol eraill. Caiff ei gwaith ei alluogi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn cydweithrediad â Byrddau Iechyd Cymru ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Rhan o rôl yr IHCC yw gweithredu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol.

Beth yw'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru?

Mewn partneriaeth â rhanddeiliaid cenedlaethol a rhyngwladol, datblygodd yr IHCC y **Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru** (y Siarter) yn 2014 (IHCC, 2014). Mae'r Siarter yn nodi egwyddorion a gwerthoedd cyffredin ar gyfer gwaith rhyngwladol ar draws y GIG, yn seiliedig ar hanes Cymru o gyflawni a dysgu yn y maes hwn ac mae'n amlinellu pedwar sylfaen partneriaethau iechyd rhyngwladol llwyddiannus:

1. Cyfrifoldebau Sefydliadol

2. Gwaith Partneriaeth Cyfatebol

3. Arfer Da

4. Llywodraethu Cadarn

Mae'n sicrhau lefel safonol o waith partneriaeth, a bod egwyddorion a gwerthoedd ehangach y GIG yn cael eu hadlewyrchu yn ein gweithgaredd iechyd rhyngwladol.

Mae'r Siarter o fudd i Gymru trwy sicrhau bod ymgysylltu mewn gweithgaredd rhyngwladol yn cael ei wneud mewn ffordd sydd yn diogelu ac yn gwella enw da Cymru yn rhyngwladol, ac yn creu enillion amlwg i Gymru a'i phartneriaid dramor. Mae hefyd yn cynorthwyo'r gwaith o gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Gweithredu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru


Mae llywodraethu cadarn yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r Siarter yn llwyddiannus. Trwy gydweithio ar Iechyd Rhyngwladol, mae Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru wedi datblygu offer, canllawiau a dogfennau, ynghyd â dolenni defnyddiol ar ffurf y Pecyn Cymorth Gweithredu'r Siarter

Mae'r pecyn cymorth wedi ei ddylunio i gynorthwyo llofnodwyr y Siarter i'w weithredu'n llwyddiannus ac yn gyson. Mae wedi cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Cymru.

Mae pob adran yn cynnwys dogfennau canllaw manwl. Bydd y dogfennau'n cael eu cyfoethogi ac ychwanegir atynt yn barhaus.

01 Cyfrifoldebau Sefydliadol

Mae ymrwymiad ac ymgysylltu sefydliadol cryf yn hanfodol. Gallai hyn gynnwys cefnogaeth ar gyfer absenoldeb arbennig, darparu adnoddau i gefnogi datblygiad partneriaethau a phrosesau ar lefel weithredol ar bartneriaethau iechyd rhyngwladol. Mae gweithredu'r egwyddor hon o'r Siarter yn cefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel yr amlygir yn ffigur 1.




Ffigur 1: Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys meysydd yn cynnwys:

		Maes Testun
Cyfrifoldebau Sefydliadol	OR1	Absenoldeb Arbennig
	OR2	Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)
	OR3	Dysgu Cydfuddiannol a Rhannu'r Gwersi a Ddysgwyd
	OR4	Effaith Amgylcheddol
	OR5	Bodloni Safonau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Gyfraniadau
	OR6	Côd Ymarfer ar gyfer Recriwtio Rhyngwladol
	OR7	Ymateb Dyngarol Brys Rhyngwladol
	OR8	Arweinydd Iechyd Rhyngwladol

02 Gwaith Partneriaeth Cyfatebol

Perthynas gydweithredol rhwng dwy ochr neu fwy yn seiliedig ar ymddiriedaeth, cydraddoldeb, parch ar y ddwy ochr a dealltwriaeth. Mae'r Siarter yn ceisio datblygu partneriaethau cryf, gweithredol a dibynadwy gyda sefydliadau iechyd ar draws Cymru, y DU ac ar draws y byd. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau iechyd byd-eang gwell. Mae gweithredu'r egwyddor hon o'r Siarter yn cefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel yr amlygir yn ffigur 2.




Ffigur 2: Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys meysydd yn cynnwys:

		Maes Testun
Gwaith Cyfatebol	RW1	Gwella Bywydau a Gwneud Dim Niwed
	RW2	Parch, Tegwch ac Uniondeb
	RW3	Rheoli Risg wrth Deithio'n Broffesiynol
	RW4	Systemau Iechyd mewn Gwledydd Datblygol
	RW5	Nodi Cyfleoedd
	RW6	Alltudiaeth

03 Arfer Da

Mae'r Siarter yn rhoi blaenoriaeth i ymagwedd yn seiliedig ar dystiolaeth, sydd yn ategu pob polisi, rhaglen ac ymyrraeth newydd. Mae'n chwilio am ganlyniadau cadarnhaol i'w dathlu a'u gweithredu'n helaeth; ac yn meithrin diwylliant di-fai sydd yn barod i ddysgu pan na fydd pethau'n mynd yn iawn. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael timau, sefydliadau a phrosiectau effeithiol a chydweithredol. Mae gweithredu'r egwyddor hon o'r Siarter yn cefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel yr amlygir yn ffigur 3.




Ffigur 3: Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys meysydd yn cynnwys:

		Maes Testun
Arfer Da	GP1	Ymarfer yn Seiliedig ar Ansawdd a Thystiolaeth
	GP2	Asesu Anghenion
	GP3	Monitro a Gwerthuso
	GP4	Ymgysylltu'r Sefydliad Cyfan trwy Ddinasyddiaeth Fyd-eang

04 Llywodraethu Cadarn

Mae nodau, amcanion a meysydd cyfrifoldeb wedi eu cytuno'n glir ar gyfer pob partner sydd yn gysylltiedig â'r bartneriaeth yn hanfodol. Mae'r Siarter yn ysgogi datblygu a gweithredu modelau llywodraethu cadarn sydd yn hwyluso partneriaethau tryloyw, effeithiol gyda llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir. Mae llywodraethu cadarn yn hanfodol ar gyfer gwella canlyniadau iechyd ar draws y byd. Mae gweithredu'r egwyddor hon o'r Siarter yn cefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel yr amlygir yn ffigur 4.



Ffigur 4: Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys meysydd yn cynnwys:

		Maes Testun
Llywodraethu Cadarn	SG1	Trefniadau Ffurfiol
	SG1.1	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Drafft
	SG1.2	Sut i sefydlu grŵp iechyd rhyngwladol
	SG2	Risg mewn Partneriaethau
	SG3	Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd Cost
	SG3.1	Canllaw Buddsoddi WHO
	SG4	Adrodd ar Effaith